9 Mawrth 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Datganiadau Ariannol Llywodraeth Leol 2015-16

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudiaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys
Deryck Evans a Simon Howells o dan gyfarwyddyd John Herniman.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Adroddiad cryno 5

Mae cyrff llywodraeth leol Cymru wedi gwella ansawdd eu datganiadau ariannol cyn archwilio ar gyfer 2015-16, ond maent yn dal i wynebu heriau yn y tymor canolig o ran gwella'u cyfrifon a'u llunio'n gynharach 5

Adroddiad manwl 10

Cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar gyfer mwyafrif y cyrff llywodraeth leol ynglŷn â'r datganiadau ariannol blynyddol a datganiadau'r Cyfrifon Llywodraeth Gyfan yn unol â'r amserlenni gofynnol 10

Er bod lle i wella o hyd, yn gyffredinol lluniodd cyrff llywodraeth leol ddatganiadau ariannol a phapurau gwaith o ansawdd da, a bu llai o ddatganiadau ariannol yr oedd angen gwneud diwygiadau perthnasol iddynt nag a gafwyd y llynedd 13

Mae'r archwilwyr yn dal i ganfod gwallau tebyg yn y datganiadau ariannol cyn archwilio ag a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol 17

Yn wyneb pwysau ariannol sylweddol, mae cyrff llywodraeth leol wedi lleihau'r gwariant ar wasanaethau ond mae rhai wedi cynyddu'r cronfeydd wrth gefn hefyd 20

Bydd angen i gyrff llywodraeth leol fynd i'r afael â nifer o heriau a newidiadau cyfrifyddu yn y blynyddoedd nesaf wrth baratoi eu datganiadau ariannol 29

Atodiadau 33

Atodiad 1 - Barn archwilio amodol a diamod 34

Atodiad 2 - Beth a olygir wrth 'perthnasol'? 35

# Adroddiad cryno

## Mae cyrff llywodraeth leol Cymru wedi gwella ansawdd eu datganiadau ariannol cyn archwilio ar gyfer 2015-16, ond maent yn dal i wynebu heriau yn y tymor canolig o ran gwella'u cyfrifon a'u llunio'n gynharach

1 Dyma fy chweched adroddiad blynyddol ar gyfrifon cyrff llywodraeth leol (eu datganiadau ariannol). Mae'n crynhoi canlyniadau fy ngwaith archwilio yng nghyswllt datganiadau ariannol 2015/16 y cyrff llywodraeth leol mwy yng Nghymru. Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, nodaf enghreifftiau o ganfyddiadau'r archwilwyr er mwyn ategu fy nghasgliadau. Cymerir yr enghreifftiau hyn o'r Adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a gyflwynir i'r cyrff unigol a gafodd eu harchwilio. Cyflwynir yr adroddiadau hyn yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISA) – 260 ac maent yn rhoi gwybod yn ffurfiol am ganfyddiadau a chasgliadau fy archwiliad o'u datganiadau ariannol.

### Arddangosyn 1 – Cyrff llywodraeth leol mwy yng Nghymru

Mae 41 o gyrff llywodraeth leol mwy yng Nghymru, y mae incwm a gwariant blynyddol pob un ohonynt uwchlaw £2.5 miliwn.

| Cyrff llywodraeth leol mwy yng Nghymru | Nifer |
|---|---|
| Awdurdodau unedol (Siroedd a Bwrdeistrefi Sirol) | 22 |
| Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | 8 |
| Awdurdodau Tân ac Achub | 3 |
| Awdurdodau parciau cenedlaethol | 3 |
| Cyd-bwyllgorau | 4 |
| Awdurdodau porthladdoedd | 1 |

2 Mae’r cyrff hyn yn darparu ystod eang o wasanaethau i’r cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, casglu gwastraff a’i waredu, hamdden a llyfrgelloedd, twristiaeth a chadwraeth, yr heddlu a’r gwasanaeth tân. Wrth wneud hynny, maent, ar y cyd:

- yn codi £1.8 biliwn o ran y dreth gyngor;
- yn cael £4.3 biliwn o gyllid refeniw uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru; ac
- yn gwario mwy na £9.4 biliwn ar ddarparu gwasanaethau.

3 Fel gweddill y sector cyhoeddus, mae cyrff llywodraeth leol yn cael eu dal yn atebol o dan y gyfraith am eu stiwardiaeth a’u llywodraethu yng nghyswllt yr arian cyhoeddus y maent yn ei reoli. Eu datganiadau ariannol (cyfrifon) blynyddol a’u datganiadau llywodraethu yw’r prif ddulliau o roi gwybod i randdeiliaid am y cyfrifoldeb hwn.

4 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol gyflwyno’u datganiadau ariannol blynyddol i mi i’w harchwilio. Fy nghyfrifoldebau yw bodloni fy hun fod:

- y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â rheoliadau;
- eu bod yn cydymffurfio â gofynion pob un o’r darpariaethau statudol eraill sy’n berthnasol i’r datganiadau ariannol; a
- bod arferion cywir wedi’u dilyn wrth lunio’r datganiadau ariannol.

5 Mae’r sector yn wynebu nifer o heriau sy’n gallu effeithio ar ansawdd ei drefniadau cyfrifyddu ac adrodd, gan gynnwys:

- terfynau amser cynharach ar gyfer paratoi a chyhoeddi eu datganiadau ariannol blynyddol;
- mae’r agenda galedi barhaus yn cyflwyno heriau o ran y ffyrdd y mae cyllid y cyhoedd yn cael ei reoli; a
- bydd modelau sy’n newid o ran darparu gwasanaethau yn effeithio ar brosesau cyfrifyddu ac adrodd cyrff.

6 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â chyrff llywodraeth leol ar newidiadau i’r amserlen statudol a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Oherwydd y newidiadau arfaethedig, yn y pen draw bydd cyrff llywodraeth leol yn llunio’u datganiadau ariannol erbyn diwedd mis Mai ac yn trefnu iddynt gael eu harchwilio erbyn diwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn. Bydd y cyfnod cyfan hyd at gyhoeddi ddeufis yn fyrrach o ganlyniad.

Arddangosyn 2 – Terfynau amser y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)

Bydd y terfynau amser statudol cynharach yn cael eu cyflwyno'n raddol hyd at 2020-21.

| Awdurdodau | Tan 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Yr heddlu, y gwasanaeth tân, a'r parciau cenedlaethol | Paratoi'r cyfrifon 30 Mehefin<br>Cyhoeddi 30 Medi | Paratoi'r cyfrifon 31 Mai<br>Cyhoeddi 31 Gorffennaf | Paratoi'r cyfrifon 31 Mai<br>Cyhoeddi 31 Gorffennaf | Paratoi'r cyfrifon 31 Mai<br>Cyhoeddi 31 Gorffennaf |
| Awdurdodau unedol | Paratoi'r cyfrifon 30 Mehefin<br>Cyhoeddi 30 Medi | Paratoi'r cyfrifon 15 Mehefin<br>Cyhoeddi 15 Medi | Paratoi'r cyfrifon 15 Mehefin<br>Cyhoeddi 15 Medi | Paratoi'r cyfrifon 31 Mai<br>Cyhoeddi 31 Gorffennaf |

7 Bydd angen gwaith cydgysylltu agos rhwng y cyrff sy'n cael eu harchwilio a'u harchwilwyr er mwyn cynllunio ar gyfer cyflwyno'r amserlen ddiwygiedig hon yn llwyddiannus, a bydd y broses gynllunio honno'n creu heriau i bawb ohonom.

8 Yn 2015 ac yn 2016, cynhaliais nifer o seminarau dysgu ar y cyd, a'u nod oedd rhannu'r hyn a ddysgwyd gan y cyrff sydd wedi llwyddo i lunio'u datganiadau ariannol a'u cael wedi'u harchwilio yn ôl amserlen fwy tyn. Canolbwyntiodd y seminarau hyn i ddechrau ar y newidiadau sefydliadol a diwylliannol sydd eu hangen i gychwyn ar y daith ac, yn ddiweddarach, ar y prosesau manwl y bydd angen i gyrff sy'n cael eu harchwilio fynd drwyddynt er mwyn cadw at y terfynau amser cynharach. Rwyf yn bwriadu cynnal gweithdai a seminarau eraill dros y blynyddoedd nesaf i ymchwilio i'r agweddau mwy manwl ar gau cyfrifon yn gynharach a'r gwersi y mae cyrff sy'n cael eu harchwilio ac archwilwyr yn eu dysgu. Mae gwybodaeth am y digwyddiadau hyn ar gael ar ein gwefan ac ychwanegir at y wybodaeth honno dros amser.

9 Er y bydd cau datganiadau ariannol yn gynharach yn cyflwyno heriau, mae'n bosibl y bydd yn creu manteision i gyrff sy'n cael eu harchwilio a'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Yn ogystal â llunio Cyfrifon Llywodraeth Gyfan mwy prydlon, dylai sefydliadau unigol weld manteision mewn meysydd fel:

- proses adrodd ariannol fwy prydlon y tu mewn i'r sefydliad ac ar gyfer rhanddeiliaid ehangach;
- sicrwydd cynharach ynglŷn â sefyllfa'r flwyddyn flaenorol cyn ymgymryd â phenderfyniadau ariannol pwysig ar gyfer y dyfodol;
- mae'r staff cyllid yn gallu treulio mwy o amser yn mynd i'r afael â'r gwaith rheoli a chynllunio ariannol ehangach sydd ei angen i ymdrin â phwysau ariannol cynyddol; ac

- adolygiadau o systemau ariannol gyda'r nod o gau cyfrifon yn gynt, sy'n arwain yn aml at welliannau i reolaethau ariannol.

10 Bydd angen i archwilwyr a chyrff sy'n cael eu harchwilio ddechrau ystyried gofynion yr amserlen o ran cau cyfrifon yn gynharach a sut y gellir cadw ati. Mae'n hanfodol parhau i wella ansawdd y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith er mwyn gallu cyflawni'r her newydd hon.

11 Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol mawr yn y tymor canolig. Mae cyllidebau ar draws y sector o dan bwysau cynyddol yn sgil gostyngiad i gyllid llywodraeth ganolog, galw cynyddol am wasanaethau, a chostau cynyddol. Mae'r pwysau hyn yn cael effaith ar gyrff unigol mewn gwahanol ffyrdd, ac maent yn ymdrin â'r pwysau hynny'n wahanol, a hynny'n bennaf drwy gyfuniad o leihau costau, cynyddu refeniw a defnyddio cronfeydd wrth gefn, neu gyfuniad o'r tri. O ganlyniad, mae gwaith cynllunio ariannol a rheolaeth gyllidebol effeithiol yn hanfodol er mwyn i gyrff ymdopi â'u sefyllfa ariannol.

12 Mae angen i gyrff llywodraeth leol ystyried sut y byddant yn ymdrin â'r heriau ariannol y maent yn eu hwynebu. Er bod y swm sydd wedi'i roi o'r neilltu mewn cronfeydd wrth gefn wedi parhau i gynyddu, mae angen i gyrff sicrhau bod eu cynlluniau ariannol tymor canolig yn gadarn. Rhaid iddynt sicrhau hefyd eu bod yn arfarnu'n feirniadol y cronfeydd wrth gefn y maent yn eu dal, ac yn cynnwys defnyddio'r cronfeydd hynny yn eu cynlluniau mewn ffordd gynaliadwy.

13 Mae amrywiad o ran pa mor addawol yw sefyllfa'r cynghorau ar gyfer mynd i'r afael â phwysau ariannol y dyfodol, ac rwyf wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân ar gydnerthedd ariannol cyrff llywodraeth leol, sy'n nodi'r heriau hyn a'r ymateb iddynt yn fwy manwl.

14 Mewn llawer o achosion, bydd angen i gyrff newid eu ffordd o ddarparu gwasanaethau. Gall hyn gynnwys cydweithredu â chyrff eraill ym maes llywodraeth leol a'r tu allan iddo. Yn fy adroddiadau blaenorol ar gyfrifon Llywodraeth Leol, nodais rai o'r anawsterau y mae cyrff llywodraeth leol wedi'u profi wrth roi cyfrif am drefniadau o'r fath. Roedd y prif anawsterau y daethpwyd ar eu traws yn ymwneud â chytuno ar y drefn o rannu costau, a darparu gwybodaeth gyfrifyddu amserol i'w chynnwys yn y datganiadau ariannol cyn archwilio. Bydd yr anawsterau hyn yn dod yn fwy cyffredin wrth i fodelau cyflenwi gwasanaethau newid ac wrth i derfynau amser cynharach ar gyfer cyfrifyddu gael eu cyflwyno.

15 Mae heriau caledi yn cael effaith ar y broses o lunio datganiadau ariannol hefyd. Gall capasiti timau cyllid gael ei leihau er mwyn creu arbedion, gan ychwanegu at y pwysau y mae'r timau sy'n paratoi datganiadau ariannol yn eu hwynebu.

16 Yn achos 2015-16, deuthum i'r casgliad fod cyrff llywodraeth leol wedi gwella ansawdd eu datganiadau ariannol cyn archwilio, ond eu bod yn dal i wynebu heriau yn y tymor canolig o ran gwella'u cyfrifon a'u llunio'n gynharach. Dyma oedd prif ganfyddiadau fy archwiliadau o gyrff llywodraeth leol:

- cyflwynwyd barn archwilio ddiamod ar gyfer mwyafrif y cyrff llywodraeth leol ynglŷn â'u datganiadau ariannol blynyddol a'u datganiadau Cyfrifon Llywodraeth Gyfan yn unol â'r amserlenni gofynnol;
- er bod lle i wella o hyd, yn gyffredinol lluniodd cyrff llywodraeth leol ddatganiadau ariannol a phapurau gwaith o ansawdd da, a bu llai o ddatganiadau ariannol yr oedd angen gwneud diwygiadau perthnasol iddynt nag a gafwyd y llynedd;
- mae'r archwilwyr yn dal i ganfod gwallau tebyg yn y datganiadau ariannol cyn archwilio ag a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol;
- yn wyneb pwysau ariannol sylweddol, mae cyrff llywodraeth leol wedi lleihau'r gwariant ar wasanaethau ond mae rhai wedi cynyddu'r cronfeydd wrth gefn hefyd; a
- bydd angen i gyrff Llywodraeth Leol fynd i'r afael â nifer o heriau a newidiadau cyfrifyddu yn y blynyddoedd nesaf wrth baratoi eu datganiadau ariannol.

17 Er mwyn cyflawni'r heriau y mae'r terfynau amser cynharach ar gyfer cau datganiadau ariannol yn eu creu, bydd angen i awdurdodau fynd i'r afael â'r meysydd cyffredin hyn a pharhau i leihau nifer y diwygiadau y mae angen eu gwneud i'r datganiadau ariannol.

# Adroddiad manwl

## Cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar gyfer mwyafrif y cyrff llywodraeth leol ynglŷn â’r datganiadau ariannol blynyddol a datganiadau'r Cyfrifon Llywodraeth Gyfan yn unol â'r amserlenni gofynnol

### Cyhoeddwyd barn archwilio ddiamod ynglŷn â’r datganiadau ariannol ar amser yn achos 39 o’r 41 o gyrff llywodraeth leol, a chyhoeddwyd pedair o’r rhain ymhell o flaen y terfyn amser statudol

18 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi gyhoeddi barn am y datganiadau ariannol ar ôl cwblhau’r archwiliad. Rwyf yn anelu at gyhoeddi’r farn cyn 30 Medi i alluogi cyrff i gyhoeddi datganiadau ariannol wedi’u harchwilio erbyn y terfyn amser statudol.

19 Gall archwilwyr gyhoeddi barn archwilio ddiamod, sy’n golygu bod y datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun ‘gwir a theg’ o incwm a gwariant y cyrff a’u sefyllfa ariannol, neu gallant gyhoeddi barn wedi’i haddasu. Mae eglurhad pellach o’r hyn a olygir wrth ‘barn wedi’i haddasu’ ar gael yn Atodiad 1.

Arddangosyn 3 – Amseriad y farn archwilio a gyhoeddwyd yng nghyswllt cyrff llywodraeth leol, 2015-16

Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio yng nghyswllt 39 o’r 41 o gyrff llywodraeth leol erbyn 30 Medi.

| | Awdurdodau Unedol | Cyrff yr heddlu | Awdurdodau Tân ac Achub | Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | Eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyrff | **22** | **8** | **3** | **3** | **5** |
| Barn wedi’i chyhoeddi: | | | | | |
| Erbyn 31 Gorffennaf | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Erbyn 31 Awst | 2[1] | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Erbyn 30 Medi | 19 | 8 | 1 | 3 | 5 |
| Erbyn 31 Rhagfyr | | | 1 | | |
| Ni chyhoeddwyd eto | | | 1 | | |

1 Cwblhawyd a chymeradwyd y cyfrifon yng Ngorffennaf. Ardystiwyd yr archwiliad ar ddechrau Awst.

20 Ar gyfer 2015-16, yn achos pob archwiliad ac eithrio dau, cafodd y gwaith ei gwblhau a'r tystysgrifau archwilio eu cyhoeddi erbyn 30 Medi. Llwyddodd un awdurdod lleol i gadw at y terfyn amser cynharach arfaethedig, sef 31 Gorffennaf, a chafodd dau gorff arall eu hardystio ddechrau mis Awst, sef mwy na mis o flaen y terfyn amser statudol presennol. Cafodd y broses o archwilio'r ddau Awdurdod Tân ac Achub sy'n weddill ei gohirio oherwydd nifer o faterion cyfrifyddu. Roedd pob barn a gyhoeddwyd yng nghyswllt 2015-16 yn farn ddiamod.

## Cyhoeddwyd barn ddiamod ynglŷn â phob datganiad Cyfrifon Llywodraeth Gyfan, a chafwyd gwelliant o ran prydlondeb proses cyrff llywodraeth leol o'u cyflwyno

21 Mae'r Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (CLlG) yn cydgrynhoi cyfrifon archwiliedig tua 4,000 o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus er mwyn creu darlun cynhwysfawr, ar sail cyfrifon, o sefyllfa ariannol sector cyhoeddus y DU. Rhaid i bob corff cyhoeddus y mae ei incwm a'i wariant uwchlaw £10 miliwn gyflwyno datganiad CLlG i Lywodraeth Cymru.

22 Ar gyfer 2015-16, roedd angen archwilio datganiadau CLlG dim ond os oedd unrhyw un o'r eitemau a ganlyn uwchlaw £350 miliwn:

- asedau (ac eithrio eiddo, offer, a chyfarpar);
- rhwymedigaethau (ac eithrio rhwymedigaethau pensiynau); neu
- incwm neu wariant gros.

23 Yn 2015-16, roedd angen archwilio datganiadau CLlG 16 o gyrff llywodraeth leol. Llwyddodd pob un o'r cyrff yr oedd angen ardystio eu datganiadau CLlG, ac eithrio un, i gadw at y terfyn amser a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn welliant o gymharu â 2014-15, pan dim ond 79% o'r cyrff a lwyddodd i gadw at y terfyn amser. Ar gyfer 2015-16, cyhoeddais ddatganiadau sicrwydd diamod yn achos pob datganiad CLlG yr oedd angen ei archwilio.

## Ni fu angen imi arfer fy mhwerau adrodd statudol yng nghyswllt cyrff llywodraeth leol yn 2016

24 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi pwerau imi gyflwyno adroddiadau cyhoeddus ar faterion sy'n dod i'm sylw yn ystod yr archwiliad, a thynnu sylw'r cyhoedd a'r cyrff sy'n cael eu harchwilio atynt. Gellir gwneud hyn drwy:

- gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd o dan adran 22 o'r Ddeddf; a/neu
- gwneud argymhelliad ysgrifenedig o dan adran 25 o'r Ddeddf – gelwir argymhellion o'r fath yn argymhellion statudol.

25 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gyrff sy'n cael eu harchwilio ystyried yr adroddiadau a'r argymhellion hyn, ac ymateb iddynt, yn ffurfiol. Fodd bynnag, yn fy marn i, dylai pob corff sy'n cael ei archwilio ystyried y materion y rhoddir gwybod amdanynt a myfyrio ynghylch unrhyw wersi y gellir eu dysgu neu'r arferion gorau y gellir eu gweithredu.

26 Mewn blynyddoedd a fu, cyhoeddais i, neu fy archwilydd penodedig, nifer o adroddiadau budd y cyhoedd a/neu gwneuthum/gwnaeth argymhellion statudol. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd dim adroddiadau nac argymhellion statudol yn 2016.

## Mae un archwiliad nad wyf wedi ardystio hyd yma ei fod wedi'i gwblhau, a hynny oherwydd materion cyfrifyddu ac archwilio nad ydynt wedi'u datrys

27 Ar ôl cwblhau'r holl waith mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn benodol, rhaid imi ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Cyn cyhoeddi'r farn a dod â'r archwiliad i ben, mae nifer o faterion y mae angen imi eu hystyried:

- a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd neu gymryd unrhyw gamau archwilio ffurfiol eraill; ac
- a ymdriniwyd yn foddhaol â phob cwestiwn a/neu wrthwynebiad gan etholwyr.

28 Gallaf gyhoeddi barn am y datganiadau ariannol pan fo materion yn parhau heb eu datrys, ar yr amod na fydd y materion hynny'n cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Pan fo'r materion wedi'u datrys, yr adroddiad archwilio terfynol wedi'i ystyried gan y corff, a'r datganiadau ariannol wedi'u hailgymeradwyo, gallaf ailgyhoeddi'r farn ac ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau.

29 Ni chyhoeddwyd barn archwilio erbyn 30 Medi yn achos y cyrff a ganlyn:

- Awdurdod Tân De Cymru
- Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

30 Yn y ddau gorff hyn, roedd materion cyfrifyddu a materion archwilio cysylltiedig yn atal y broses o gyhoeddi barn erbyn 30 Medi. Cyhoeddais fy marn archwilio am ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân De Cymru ar 21 Rhagfyr 2016 ac ardystiais fod yr archwiliad wedi'i gwblhau.

31 Fel ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid wyf wedi cyhoeddi barn archwilio am ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'r archwiliad ar agor o hyd. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y bydd angen cymryd unrhyw gamau archwilio ffurfiol yn y pen draw. Fodd bynnag, nes bod pob mater a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr archwiliad mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol wedi'i ystyried a'i ddatrys, ni ellir rhoi barn archwilio ac ni ellir ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau.

## Er bod lle i wella o hyd, yn gyffredinol lluniodd cyrff llywodraeth leol ddatganiadau ariannol a phapurau gwaith o ansawdd da, a bu llai o ddatganiadau ariannol yr oedd angen gwneud diwygiadau perthnasol iddynt nag a gafwyd y llynedd

### Cafwyd llai o ddatganiadau ariannol llywodraeth leol yr oedd angen gwneud diwygiadau perthnasol iddynt yn 2015-16 o gymharu â 2014-15

32 Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, nid yw archwilwyr yn darparu sicrwydd llwyr fod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir; maent yn mabwysiadu cysyniad 'perthnasedd'. Mae rhagor o wybodaeth am ddull archwilwyr o benderfynu a yw gwall yn berthnasol neu beidio ar gael yn Atodiad 2.

33 Drwy eu gwaith, gall archwilwyr ganfod camddatganiadau perthnasol yn natganiadau ariannol corff sy'n cael ei archwilio. Os felly, bydd yr archwilydd yn gofyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiwygio'r datganiadau ariannol i gywiro'r gwallau. Os na fydd y camddatganiadau perthnasol yn cael eu cywiro, neu os nad yw'n bosibl canfod gwerth y gwall oherwydd gwybodaeth annigonol, gall yr archwilydd ystyried cyhoeddi barn wedi'i haddasu (hynny yw, barn amodol).

34 Bydd unrhyw gamddatganiadau amherthnasol, ond sy'n dal yn arwyddocaol, yn cael eu dwyn i sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol hefyd. Bydd yr archwilwyr yn gofyn i'r Swyddog hwn gywiro gwallau o'r fath.

35 Os nad yw gwallau a chamddatganiadau arwyddocaol y daethpwyd â nhw i sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn cael eu haddasu, bydd yr archwilwyr yn dod â'r materion hyn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (sef y cyngor llawn neu ei bwyllgor archwilio, fel arfer). Bydd yr archwilwyr yn ceisio eglurhad ynglŷn â pham nad yw'r addasiadau wedi'u gweithredu cyn i'r datganiadau ariannol gael eu cymeradwyo.

36 Yn 2014-15, gwnaeth 60% o'r cyrff llywodraeth leol ddiwygiadau perthnasol i'w datganiadau ariannol yn sgil yr archwiliad. Yn achos 2015-16, pan fo'r archwiliad wedi'i gwblhau, bu angen gwneud diwygiadau perthnasol i 52% o'r datganiadau ariannol a gafodd eu harchwilio. Er bod y gwelliant hwn i'w groesawu, mae nifer y cyrff y mae eu datganiadau ariannol cyn archwilio yn cynnwys gwallau perthnasol yn rhy uchel o hyd.

37 Er ei bod yn debygol y bydd mân wallau i'w cael yn y datganiadau ariannol a gyflwynir i'w harchwilio, dylai eitemau perthnasol ymddangos yn anaml. Wrth lofnodi'r datganiadau ariannol cyn iddynt gael eu harchwilio, mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio eu bod yn gywir i raddau perthnasol. Mae'r nifer fawr o wallau perthnasol yn tanseilio'r broses ardystio honno ac yn creu amheuaeth ynghylch effeithiolrwydd y prosesau o lunio'r datganiadau ariannol, sicrhau ansawdd, ac adolygu.

38 Dylai prosesau da o ran llunio datganiadau ariannol, sydd â threfniadau sicrhau ansawdd ac adolygu mewnol cadarn, allu canfod gwallau perthnasol cyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio eu bod yn gywir i raddau perthnasol. Dylai cyrff y gwneir diwygiadau perthnasol i'w datganiadau ariannol adolygu eu trefniadau ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol a sicrhau ansawdd, i ofalu eu bod yn gallu canfod gwallau o'r fath cyn i'r datganiadau ariannol gael eu hardystio a'u trosglwyddo i'w harchwilio.

39 Bydd gwella'r broses o lunio datganiadau ariannol ac o sicrhau ansawdd yn ofyniad allweddol er mwyn i awdurdodau gadw at y terfynau amser cynharach ar gyfer cau cyfrifon.

40 Mae rhagor o fanylion am y mathau o wallau a ganfuwyd ar gael yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Er bod lle i wella o hyd, yn gyffredinol, llwyddodd y cyrff a gafodd eu harchwilio i gynnal neu wella ansawdd eu papurau gwaith

41 Er mwyn ategu'r cofnodion yn y datganiadau ariannol ac i sicrhau bod y broses archwilio'n mynd rhagddi'n gyflym ac yn ddidrafferth, dylai cyrff sy'n cael eu harchwilio ddarparu papurau gwaith amserol, cynhwysfawr, cyflawn a chlir i ategu eu datganiadau ariannol. Mae papurau gwaith hwyr, gwael neu nad ydynt yn cyrraedd y safon yn rhoi mwy o bwysau ar dimau cyllid y cyrff sy'n cael eu harchwilio a'r archwilwyr, ac mae'n cynyddu'r risg na fydd y datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio yn cael eu cyhoeddi erbyn y terfyn amser statudol. Mae'n bwysig bod yr archwilwyr a'r cyrff sy'n cael eu harchwilio yn cytuno ar y gofynion o ran papurau gwaith a gofynion archwilio eraill o flaen llaw er mwyn hwyluso'r nod o gwblhau'r gwaith archwilio yn brydlon.

42 Mae angen i gyrff sy'n cael eu harchwilio ac archwilwyr sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn a ddisgwylir a'r hyn sy'n gweithio'n lleol, a pharhau i symleiddio'r trefniadau ar sail yr hyn a ddysgwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Pan fo'r broses yn llwyddo, ceir deialog barhaus ac agored; caiff materion eu trafod cyn proses y datganiadau ariannol a thrwy gydol y broses honno. Mae profiad yn dangos mai sesiwn ddysgu ar y cyd ar ôl y prosiect yw un o'r dulliau mwyaf gwerthfawr o hyd ar gyfer gwella trefniadau. Mewn sesiwn o'r fath, bydd yr archwilwyr a'r rheolwyr yn rhannu eu barn yn agored am y broses o lunio'r datganiadau ariannol a'u harchwilio, ar ôl ei chwblhau. Mae'r sesiynau hyn wedi galluogi'r archwilwyr a'r rheolwyr i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau ynglŷn â'r hyn a lwyddodd a'r hyn na lwyddodd cymaint, ac maent wedi helpu o ran canfod gwelliannau ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Gall gwelliannau o'r fath gynnwys darparu darlun cliriach o'r gofynion yng nghyswllt papurau gwaith, mynediad haws at systemau gwybodaeth, a dull gwell o amserlennu gorchwylion allweddol, ac yn y blaen.

43 Pan fo’r trefniadau ar gyfer llunio papurau gwaith cywir ac amserol yn wael, ni fydd cyrff mewn sefyllfa dda i gyflawni’r gofynion arfaethedig ynghylch cau cyfrifon yn gynnar. Yn fy seminarau diweddar ar gyfer y Gyfnewidfa Arfer Da, nododd y cyfranogwyr mai sicrhau bod staff cyllid a’r archwilwyr yn cytuno ar y gofynion yng nghyswllt papurau gwaith yn gynnar yn y broses yw un o’r ffactorau pwysicaf er mwyn cau datganiadau ariannol yn gynharach.

44 Mae’n bwysig bod papurau gwaith yn hawdd i’w dilyn a’u bod yn darparu llwybr archwilio cyflawn. Mewn nifer o achosion, bydd yr archwilwyr yn archwilio papurau gwaith gryn amser wedi iddynt gael eu paratoi. Bydd sicrhau eu bod yn gynhwysfawr, yn gyflawn ac yn gywir yn golygu nad oes cymaint o angen i’r archwilwyr gyflwyno ymholiadau ychwanegol, ac mae’n lleihau’r amser a’r ymdrech sy’n gysylltiedig ag ymdrin â’r ymholiadau archwilio hynny.

45 Bu’r archwilwyr yn asesu safon y papurau gwaith a ddarparwyd ac ystyriwyd bod hanner y papurau hynny o safon dda. Er bod llawer o agweddau ar y papurau gwaith a ddarparwyd yn foddhaol, canfu’r archwilwyr fod lle i wella yn y cyrff eraill.


46 Nododd yr archwilwyr y materion a ganlyn:

- oherwydd diffyg tystiolaeth ddogfennol i ategu’r farn a luniwyd, bu’n rhaid i briswyr ail-greu nodiadau ffeil i egluro’r rhesymau am y penderfyniadau a wnaethant;
- nid oedd y papurau gwaith a ddarparwyd yn cyd-fynd â’r nodyn a oedd wedi’i gynnwys yn y datganiadau ariannol, neu nid oedd yn ei ategu’n llwyr; ac
- roedd rhai papurau gwaith yn aneglur ac nad oeddent yn cynnwys digon o fanylion fel y gallai staff y Cyngor ymateb i ymholiadau’r archwilwyr heb ymdrech ychwanegol sylweddol.

47 Mae prydlondeb papurau gwaith yn ffactor allweddol wrth gyflawni’r archwiliad a bydd yn chwarae rhan fawr yn y blynyddoedd nesaf pan fydd y drefn o gau cyfrifon yn gynnar yn cael ei gweithredu’n llwyr. O ganlyniad, bu’r archwilwyr yn asesu pa mor brydlon y cafodd cyfres gyflawn o bapurau gwaith sy’n ategu’r datganiadau ariannol ei darparu i’r tîm archwilio lleol. Fel y gwelir yn Arddangosyn 4, nododd yr archwilwyr fod y papurau gwaith i ategu’r datganiadau ariannol wedi’u darparu’n brydlon ar y cyfan.

Arddangosyn 4 – Asesiad yr archwilwyr o brydlondeb papurau gwaith llywodraeth leol

Darparodd 73% o'r cyrff a gafodd eu harchwilio bapurau gwaith i dimau archwilio lleol yn brydlon.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae angen i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru wneud rhagor o waith i leihau maint a chymhlethdod eu datganiadau ariannol

48 Mae datganiadau ariannol llywodraeth leol yn ddogfennau hir a chymhleth. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu'r archwilwyr yn annog cyrff sy'n cael eu harchwilio i symleiddio'u datganiadau ariannol, pan fo modd, a dileu nodiadau a datgeliadau amherthnasol nad ydynt ond yn ychwanegu at gymhlethdod y datganiadau ariannol. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddu Cyhoeddus (CIPFA) hefyd wedi ymrwymo i symleiddio datganiadau ariannol llywodraeth leol fel rhan o'i adolygiad 'Telling the story'.

49 Mae dwy fantais allweddol yn gysylltiedig â datganiadau ariannol mwy cryno. Maent yn fwy hygyrch a dealladwy i ddefnyddwyr, ac maent yn dileu beichiau diangen i'r rhai sy'n paratoi'r datganiadau ariannol. Bydd y ffaith bod y baich ar y rhai sy'n eu paratoi yn lleihau hefyd yn cynorthwyo cyrff sy'n cael eu harchwilio i gadw at y terfynau amser cynharach ar gyfer cyflwyno adroddiadau a chyhoeddi.

50 Nododd yr archwilwyr, er bod 45% o'r cyrff sy'n cael eu harchwilio wedi cymryd camau i symleiddio'u datganiadau ariannol, nad oedd 55% ohonynt wedi gwneud fawr o gynnydd a bod angen i'r rhain wneud gwaith pellach yn y maes hwn.

## Mae'r archwilwyr yn dal i ganfod gwallau tebyg yn y datganiadau ariannol cyn archwilio ag a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol

51 Dylai prosesau da o ran llunio datganiadau ariannol, sydd â threfniadau sicrhau ansawdd ac adolygu mewnol cadarn, allu canfod gwallau perthnasol cyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio eu bod yn gywir i raddau perthnasol. Dylai cyrff y gwneir diwygiadau perthnasol i'w datganiadau ariannol adolygu eu trefniadau ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol a sicrhau ansawdd, i ofalu eu bod yn gallu canfod gwallau o'r fath cyn i'r datganiadau ariannol gael eu hardystio a'u trosglwyddo i'w harchwilio.

52 Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth gyflwyno'r amserlen gynharach ar gyfer cau'r datganiadau ariannol a'u cyhoeddi. Bydd cau'n gynharach yn cynyddu'r risg o wallau, ac mae angen i gyrff sy'n cael eu harchwilio sicrhau bod ganddynt brosesau cadarn ar waith o ran llunio datganiadau ariannol a'u hadolygu, er mwyn bod yn barod i wynebu'r her benodol hon.

53 Mae'r prif feysydd lle y nodwyd camddatganiadau o waith archwilio yn 2015-16, gan gynnwys camddatganiadau perthnasol ac amherthnasol, a materion ansoddol eraill, wedi'u crynhoi isod.

### Rhoi cyfrif am asedau anghyfredol yw'r maes y mae'r archwilwyr yn dal i ganfod gwallau ynddo amlaf mewn datganiadau ariannol cyn archwilio

54 Mae rhoi cyfrif am asedau anghyfredol (eiddo, offer, a chyfarpar – cyfrifyddu cyfalaf) yn faes cyfrifyddu cymhleth. Yng nghyd-destun llywodraeth leol, ceir cymhlethdodau ychwanegol oherwydd darpariaethau statudol sy'n addasu dulliau cyfrifyddu arferol.

55 Yn fy adroddiadau blaenorol, nodais fod cyfrifyddu cyfalaf yn faes lle y mae nifer sylweddol o gyrff sy'n cael eu harchwilio yn cael trafferth gweithredu'r dull cyfrifyddu cywir. Yn 2015-16, gwnaeth tua 50% o'r cyrff llywodraeth leol addasiadau i'w datganiadau ariannol yn y maes hwn o ganlyniad i wallau a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad.

56 Nododd yr archwilwyr y materion a ganlyn:

- Cafodd ysgol ei phrisio ar sail nifer bosibl y disgyblion yn hytrach na nifer wirioneddol y disgyblion, fel sy'n ofynnol yn ôl Llawlyfr Prisio Asedau Eiddo CIPFA.
- Cafwyd gwared ar faes parcio ar safle'r cyfleuster presennol a chafodd cost y cyfleuster newydd ei hychwanegu at y gofrestr asedau. Fodd bynnag, roedd gwerth y maes parcio y cafwyd gwared arno wedi'i gofnodi o hyd yn y datganiadau ariannol.

- Cafodd asedau eu dosbarthu'n anghywir yn eiddo buddsoddi gan olygu bod prisiad yn cael ei wneud ar sail anghywir.

- Cafodd asedau a oedd yn bodloni'r amodau i fod yn 'asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu' eu dosbarthu'n anghywir yn asedau dros ben gan olygu bod prisiad yn cael ei wneud ar sail anghywir.

- Nid oedd y dull cyfrifyddu a weithredwyd yn achos gwariant dilynol ar asedau yn cyd-fynd â'r Cod.

57 Wrth i awdurdodau gyflwyno'r drefn o gau a chyhoeddi eu datganiadau ariannol blynyddol yn gynharach, bydd angen iddynt sicrhau eu bod yn datrys eu materion cyfrifyddu cyfalaf yn gynnar yn y broses. Mae addasu ffigurau oherwydd gwallau sy'n ymwneud ag asedau anghyfredol yn cael effaith ar draws pob un o'r prif ddatganiadau cyfrifyddu a nifer o nodiadau i'r datganiadau ariannol. Mae mynd ati i gywiro'r gwallau hyn yn broses hir ac mae'n cynyddu'r risg y bydd cyrff yn methu â chadw at yr amserlen statudol ar gyfer cyhoeddi eu datganiadau ariannol.

58 Yn fy seminarau diweddar ar gyfer y Gyfnewidfa Arfer Da, nododd y cyfranogwyr mai sicrhau bod y corff a'r tîm archwilio'n ymgysylltu â'i gilydd yn gynnar yn y broses yw un o'r ffyrdd gorau o ddatrys materion sy'n ymwneud â chyfrifyddu cyfalaf. Mae'n hollbwysig mynd ati i baratoi a chynllunio'n gynnar, gan sicrhau bod staff cyllid ac ystadau awdurdodau, archwilwyr a phriswyr yn cymryd rhan. Mae angen cytuno ar ddyddiadau allweddol fel y gellir cytuno'n gynnar ar ragdybiaethau, materion dosbarthu, methodolegau prisio, a phryd a sut y bydd amcangyfrifon yn cael eu defnyddio. Dylai'r cynlluniau sicrhau y bydd y wybodaeth ar gael yn brydlon. Ystyrir bod hwn yn faes lle y gellir cwblhau llawer o waith archwilio'n gynnar.

## Ni wnaeth hanner y cyrff a gafodd eu harchwilio ddatgelu cydnabyddiaeth ariannol uwch-swyddogion yn gywir fel sy'n ofynnol yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)

59 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod rhaid i gyrff llywodraeth leol gynnwys gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol eu huwch-swyddogion yn eu datganiadau ariannol blynyddol. Mae'r datgeliadau hyn yn cynnwys datgeliadau manwl ynglŷn â swyddogion penodol, a datgeliadau ynghylch nifer y swyddogion y mae eu cydnabyddiaeth ariannol yn perthyn i fandiau penodedig, sydd â gwerth sylfaenol o £60,000.

60 Mae'r broses o baratoi'r datgeliadau hyn yn gymharol rwydd. Fodd bynnag, nododd yr archwilwyr nad oedd tua 50% o'r cyrff wedi'u paratoi'n gywir.

61 Nododd yr archwilwyr y materion a ganlyn:

- er bod rheoliadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol datgelu, cafodd taliadau diswyddo a dileu swyddi eu heithrio wrth gyfrifo cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer datgelu nifer y cyflogeion, gyda chydnabyddiaeth ariannol wedi'i chyflwyno mewn bandiau o £5,000;

- wrth gyfrifo cydnabyddiaeth ariannol gros i uwch-swyddogion, cafodd buddion trethadwy ar ffurf nwyddau neu wasanaethau eu heithrio o'r gydnabyddiaeth ariannol gros; a

- gwnaed gwallau wrth gyfrifo cyflog canolrifol pob cyflogai er mwyn cymharu hyn â'r cyflogai sydd â'r cyflog mwyaf.

## Mae cyrff sy'n cael eu harchwilio yn parhau i gyflwyno trafodiadau mewnol yn anghywir yn eu datganiadau ariannol cyn archwilio

62 Bwriedir i ddatganiadau ariannol unrhyw awdurdod unigol grynhoi sut y mae wedi rheoli ei adnoddau. Dogfen gyhoeddus yw'r datganiadau ariannol. Dylai trafodiadau mewnol, hynny yw, y rhai sy'n ailgodi costau un ganolfan gostau ar un arall, gael eu hepgor o incwm a gwariant gros yr awdurdod.

63 Yn fy adroddiadau ar ddatganiadau ariannol 2013-14 a 2014-15, nodais fod nifer o gyrff llywodraeth leol wedi gorddatgan incwm gros a gwariant gros yn sylweddol oherwydd nad oedd achosion o ailgodi costau'n fewnol wedi'u gwrthbwyso (hynny yw, wedi'u dileu). Er bod y mater hwn i'w weld eto yn 2015-16, mae nifer y cyrff sy'n parhau i gyflwyno'r trafodiadau mewnol hyn yn anghywir yn parhau i ostwng.

64 Nododd yr archwilwyr y materion a ganlyn:

- cafodd taliadau a gododd un adran ar un arall am gyflenwi nwyddau a gwasanaethau eu cyflwyno'n anghywir ar ffurf incwm i'r adran a gyflenwodd y nwyddau a'r gwasanaethau, a gwariant i'r adran a gafodd y nwyddau a'r gwasanaethau; ac

- roedd datganiadau ariannol yn gorddatgan balansau'r dyledwyr a'r credydwyr ar ddiwedd y flwyddyn drwy gynnwys balansau rhwng yr awdurdod a'i ysgolion.

## Mae cyrff sy'n cael eu harchwilio yn gwneud gwallau syml wrth ddosbarthu balansau dyledwyr a chredydwyr

65 Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i falansau dyledwyr a chredydwyr gael eu rhannu'n falansau tymor hir a thymor byr. Pan fo'n berthnasol, bydd yr awdurdodau'n darparu dadansoddiad o gyfanswm y dyledwyr a'r credydwyr, gan ei rannu rhwng:

- Cyrff llywodraeth ganolog

- Awdurdodau lleol eraill

- Cyrff y GIG

- Cyrff cyhoeddus a chronfeydd masnachu

- Cyrff y tu allan i lywodraeth gyffredinol

66 Mewn nifer o gyrff, cafodd eitemau eu camddosbarthu rhwng y penawdau hyn.

67 Nododd yr archwilwyr y materion a ganlyn:

- mae symiau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol eraill yn cael eu cyflwyno ar ffurf balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog a chyrff y tu allan i lywodraeth gyffredinol; ac
- oherwydd bod symiau a oedd yn ddyledus i'r gronfa bensiwn llywodraeth leol wedi'u cofnodi'n anghywir, nid oedd balansau'r dyledwyr a'r credydwyr a nodwyd yn cyd-fynd â'r symiau a gofnodwyd gan gyfrifon y gronfa bensiwn.

### Yn aml, nid yw cyrff sy'n cael eu harchwilio yn cyflwyno'r trafodiadau llif arian yn gywir

68 Y datganiad llif arian yw un o'r prif ddatganiadau cyfrifyddu, ond yn aml ni roddir cymaint o sylw i'w fanylion ag a roddir i'r datganiadau eraill. Mae llawer o'r trafodiadau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad llif arian yn deillio o'r prif ddatganiadau eraill, neu'n cael eu cysoni â nhw. Nododd yr archwilwyr faterion a oedd yn ymwneud â'r datganiad llif arian ym mron 25% o'r cyrff a gafodd eu harchwilio.

69 Nododd yr archwilwyr y materion a ganlyn:

- cafodd balansau arian eu cofnodi'n orddrafftiau banc;
- nid oedd cofnodion yn y datganiad llif arian yn cyd-fynd â'r cofnodion gwaelodol; ac
- nid oedd eitemau a oedd wedi'u cynnwys yn y datganiad llif arian wedi'u cyflwyno yn unol â gofynion y Cod.

## Yn wyneb pwysau ariannol sylweddol, mae cyrff llywodraeth leol wedi lleihau'r gwariant ar wasanaethau, ond mae rhai wedi cynyddu'r cronfeydd wrth gefn hefyd

70 Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai cynnydd bach yng nghyllid awdurdodau lleol ar gyfer 2017-18 o gymharu â 2016-17. Fodd bynnag, mae'r sector yn dal i wynebu heriau sylweddol yn y blynyddoedd nesaf. Mae awdurdodau lleol yn dal i ddarparu gwasanaethau yng nghyd-destun agenda galedi barhaus a rhaid iddynt ymdrin â llawer o bwysau ar gyllidebau.


## Parhaodd gwariant awdurdodau lleol a'r heddlu ar wasanaethau rheng flaen i ostwng yn 2015-16 ac erbyn hyn mae 7% yn is mewn termau real nag yn 2011-12

71 Mae awdurdodau lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau i'r cyhoedd. Caiff y rhain eu hariannu'n rhannol gan ffioedd a thaliadau am y gwasanaethau hynny a grantiau penodol tuag at gost y gwasanaethau hynny. Mae ffioedd a thaliadau a grantiau penodol yn ariannu tua 40% o gyfanswm cost gwasanaethau cynghorau. Cyllid refeniw cyffredinol yw'r 60% sy'n weddill, gan gynnwys y Grant Cynnal Refeniw, ardrethi annomestig, a'r dreth gyngor.

72 Mae Arddangosyn 5 yn dangos bod 60% o gyfanswm gwariant awdurdodau lleol yn 2015-16 wedi'i wario ar wasanaethau plant ac addysg (42%) a gofal cymdeithasol i oedolion (18%).

### Arddangosyn 5 – Gwariant gros awdurdodau lleol ar wasanaethau yn 2015-16

Gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau plant ac addysg yw'r eitemau unigol mwyaf o wariant llywodraeth leol yng Nghymru.




1 Mae gwariant y Cyfrif Refeniw Tai yn hepgor £918 miliwn o wariant untro a dalwyd i Drysorlys EM i adael system gymorthdaliadau'r Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon awdurdodau lleol yn 2015-16

73 Gostyngodd gwariant gros awdurdodau lleol ar wasanaethau a'r gwariant net ar wasanaethau ar ôl incwm o ffioedd, taliadau, a grantiau penodol 2% yn 2015-16 o gymharu â 2014-15. Mae Arddangosyn 6 yn dangos y duedd tymor hir, sef bod gwariant gros ar wasanaethau wedi gostwng 7% mewn termau real ers 2011-12, a bod gwariant net ar wasanaethau wedi gostwng 5% yn yr un cyfnod.

74 Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad hwn mewn gwariant wedi'i weithredu'n gyfartal yn achos pob gwasanaeth. Rhwng 2011-12 a 2015-16, mae'r gwariant gros ar ofal cymdeithasol i oedolion wedi cynyddu 3% mewn termau real. Mae gwariant ar feysydd gwasanaeth eraill wedi gostwng mewn termau real; mae'r gwariant ar wasanaethau diwylliannol a gwasanaethau cysylltiedig, a gwasanaethau amgylcheddol, rheoleiddio a chynllunio, wedi gostwng 20%.

75 Yn fy adroddiad ar Gydnerthedd Ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2016, ystyriais pa mor addawol yw sefyllfa awdurdodau lleol o ran rheoli cyllidebau a gwariant ar wasanaethau. Mae'n debyg y bydd y pwysau cyllidebol gwaelodol yn parhau yn y dyfodol agos, gan olygu ei bod yn gynyddol bwysig i awdurdodau reoli eu gwariant cylchol.

## Arddangosyn 6 – Gwariant gros awdurdodau lleol ar wasanaethau ers 2011-12, a'r gwariant ar ôl tynnu ffioedd, taliadau, a grantiau penodol

Ers 2011-12, mae gwariant refeniw gros awdurdodau lleol wedi gostwng 7% ac mae eu gwariant refeniw net wedi gostwng 5% mewn termau real.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon awdurdodau lleol o 2011-12 i 2015-16, wedi'u haddasu yn ôl prisiau mis Mawrth 2016, a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfres datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EM a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016

76 Ar ôl i’r gwariant ar wasanaethau’r heddlu gynyddu rhwng 2012-13 a 2014-15, a hynny’n bennaf oherwydd uwchgynhadledd NATO, a gynhaliwyd yng Nghasnewydd ym mis Medi 2014, fel y dengys Arddangosyn 7, gostyngodd y gwariant hwn hefyd yn 2015-16.

## Arddangosyn 7 – Gwariant gros yr heddlu ar wasanaethau ers 2011-12, a’r gwariant ar ôl tynnu ffioedd, taliadau a grantiau penodol

Mae gwariant refeniw gros cyrff yr heddlu wedi gostwng 6% ac mae eu gwariant refeniw net wedi gostwng 8% mewn termau real.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon cyrff yr heddlu o 2011-12 i 2015-16, wedi’u haddasu yn ôl prisiau mis Mawrth 2016, a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfres datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EM a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016

## Mewn termau real, mae incwm refeniw awdurdodau lleol a chyrff yr heddlu wedi gostwng ers 2011-12, ac er mai cyllid llywodraeth ganolog yw'r ffynhonnell incwm fwyaf o hyd, mae cyfran gynyddol o'r incwm yn deillio o'r dreth gyngor


77 Mae cynghorau'n ariannu eu cost net o ddarparu gwasanaethau drwy'r grant cynnal refeniw, yr ardrethi annomestig a gânt, a'r dreth gyngor. Mae Arddangosyn 8 yn dangos bod Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac ardrethi annomestig wedi darparu tua 72% o'r cyllid refeniw cyffredinol hwn yn 2015-16, a bod y dreth gyngor yn gyfrifol am y 28% sy'n weddill.

78 Ers 2011-12, mae cyllid refeniw cyffredinol cynghorau wedi gostwng mewn termau real. Fel y dengys Arddangosyn 9, rhwng 2011-12 a 2015-16, gostyngodd incwm cynghorau o'r grant cynnal refeniw, ardrethi annomestig a'r dreth gyngor 4% mewn termau real. Er mai grant cynnal refeniw Llywodraeth Cymru yw'r ffynhonnell fwyaf o gyllid i lywodraeth leol o hyd, gostyngodd hwn swm a oedd yn cyfateb i tua £441 miliwn (12%) mewn termau real rhwng 2011-12 a 2015-16. Yn y cyfnod hwn, mae cyfran y cyllid refeniw cyffredinol sy'n deillio o'r dreth gyngor wedi cynyddu o 25% i 28% yn 2015-16.

79 Mae'r gostyngiad mewn cyllid canolog yn gosod pwyslais cynyddol ar y modd y mae awdurdodau lleol yn codi arian yn uniongyrchol. Yn fy adroddiad ynghylch Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm ym mis Tachwedd 2016, deuthum i'r casgliad nad yw awdurdodau'n mynd ar drywydd pob dewis ar gyfer creu incwm oherwydd gwendidau yn eu polisïau a'r modd y maent yn defnyddio data a gwybodaeth i ategu penderfyniadau.

### Arddangosyn 8 – Cyllid refeniw cyffredinol cynghorau yn 2015-16


Roedd cyllid refeniw cyffredinol cynghorau yn 2015-16 yn werth £5.6 biliwn. Roedd 56% o'r swm hwn yn deillio o'r grant cynnal refeniw, ac roedd 16% arall ohono'n deillio o ardrethi annomestig.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon awdurdodau lleol yn 2015-16

Arddangosyn 9 – Cyllid refeniw cyffredinol cynghorau, mewn termau real, ers 2011-12

Mae'r cyllid refeniw cyffredinol wedi gostwng 7% mewn termau real ers 2011-12.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon awdurdodau lleol o 2011-12 i 2015-16, wedi'u haddasu yn ôl prisiau mis Mawrth 2016, a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfres datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EM a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016

80 Yn yr un modd, mae gwasanaethau'r heddlu yn ariannu cost net eu gwasanaethau (ar ôl ffioedd, taliadau a grantiau penodol) o'r grant heddlu gan y Swyddfa Gartref, y grant cynnal refeniw, ardrethi annomestig, a'r dreth gyngor. Dengys Arddangosyn 10 fod y grant heddlu, y grant cynnal refeniw, ac ardrethi annomestig wedi darparu tua 59% o'r cyllid refeniw cyffredinol hwn yn 2015-16. Mae 41% o'r cyllid refeniw cyffredinol yn deillio o'r dreth gyngor.

81 O ran arian parod, mae cyllid refeniw cyffredinol cyrff yr heddlu wedi gostwng o £623 miliwn yn 2011-12 i £610 miliwn yn 2015-16. Yn ôl prisiau mis Mawrth 2016, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o £51 miliwn neu 8%. Mae Arddangosyn 10 yn crynhoi ffynonellau incwm ar gyfer cyrff yr heddlu yng Nghymru yn ôl prisiau mis Mawrth 2016. Mae cyfran gynyddol o gyllid refeniw cyffredinol cyrff yr heddlu yn deillio o'r dreth gyngor. Yn 2011-12, darparodd y rhai sy'n talu'r dreth gyngor 34% o gyllid refeniw cyffredinol yr heddlu. Erbyn 2015-16, roedd hyn wedi cynyddu i 41% tra bo'r gyfran a geir gan y llywodraeth ganolog wedi gostwng o 66% i 59%.

Arddangosyn 10 – Cyllid refeniw cyffredinol gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru yn ôl prisiau mis Mawrth 2016

Ers 2011-12, mae'r incwm o grant yr heddlu, y grant cynnal refeniw, ardrethi annomestig a'r dreth gyngor wedi gostwng 8% mewn termau real.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon cyrff yr heddlu o 2011-12 i 2015-16, wedi'u haddasu yn ôl prisiau mis Mawrth 2016, a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfres datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EM a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016

82 Ers 2011-12, mae amryw o grantiau penodol i'r heddlu ar gyfer prosiectau penodol wedi'u hymgorffori'n rhan o'r setliad refeniw gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod y gostyngiad mewn cyllid refeniw cyffredinol yn fwy na'r hyn a ddangosir uchod, mewn gwirionedd.

## Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy awdurdodau lleol yn cyfateb i tua 28% o'r gwariant blynyddol ar wasanaethau (ar ôl tynnu ffioedd a thaliadau) ac maent wedi cynyddu 8% mewn termau real dros y pum mlynedd ddiwethaf, tra bo cyrff yr heddlu wedi defnyddio rhywfaint o'u cronfeydd wrth gefn yn 2015-16

83 Mae cyrff yn cynnal cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, y gellir eu defnyddio i ategu gwasanaethau, ynghyd â chronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy, sy'n cynrychioli addasiadau cyfrifyddu ar gyfer eitemau fel newidiadau i bris tir ac adeiladau.

84 Rhaid i gyrff ystyried faint o arian i'w gadw mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl ac ymrwymiadau gwario sydd wedi'u cynllunio, yn unol â'u cynlluniau ariannol tymor canolig. Mae'n arbennig o bwysig ystyried cronfeydd wrth gefn yn ofalus gan nad yw'n gynaliadwy dibynnu ar gronfeydd wrth gefn i ategu costau parhaus – pan fônt wedi'u disbyddu, rhaid canfod ffynonellau arian eraill neu arbedion effeithlonrwydd. Mae hefyd yn ofyniad statudol i gyrff ystyried eu cronfeydd wrth gefn wrth bennu eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn.

85 Fel y dengys Arddangosyn 11, mae gwerth cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy awdurdodau lleol yn parhau i gynyddu. Erbyn mis Mawrth 2016, roedd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu 7% ers 2011-12 (2% mewn termau real) ac roedd £4 miliwn yn ychwanegol wedi'i neilltuo mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn 2015-16. Ar hyn o bryd, mae'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi a chronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eraill yn cyfateb i 86% o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy awdurdodau lleol. Yn 2015-16, neilltuodd awdurdodau lleol £2 filiwn yn ychwanegol mewn cronfeydd sydd wedi'u clustnodi a chronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eraill. Mae'r cronfeydd sydd wedi'u clustnodi a'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eraill £46 miliwn (4%) yn fwy nag yn 2011-12.


86 Er gwaethaf yr heriau mwy y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn eu hwynebu, nid yw awdurdodau lleol wedi defnyddio'u cronfeydd wrth gefn i raddau sylweddol hyd yma. Er y bu incwm a gwariant yn gostwng, bu gwerth cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy awdurdodau yn cynyddu.

87 Yn 2011-12, roedd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn cyfateb i 26% o gost net gwasanaethau cynghorau ar ôl cael ffioedd a thaliadau. Yn 2015-16, roedd y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu, gan gyfateb i 28% o gost net gwasanaethau.

88 Yn achos cyrff yr heddlu, mae rhai cronfeydd wrth gefn wedi'u defnyddio i ategu gwasanaethau. Fel y dengys Arddangosyn 12, ar ôl cynnydd bach mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2014-15, mae cyrff yr heddlu yng Nghymru wedi defnyddio rhywfaint o'u cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn 2015-16 i ategu prosiectau penodol. Roedd cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yr heddlu yn cyfateb i 20% o'r gwariant refeniw gros yn 2015-16 o gymharu â 21% yn 2011-12.

## Arddangosyn 11 – Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy awdurdodau lleol


Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy awdurdodau lleol wedi cynyddu 7% o ran arian parod ers 2011-12.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon awdurdodau lleol o 2011-12 i 2015-16

## Arddangosyn 12 – Cronfeydd wrth gefn cyrff yr heddlu yng Nghymru

Mae cyrff yr heddlu yng Nghymru wedi defnyddio rhywfaint o'u cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn 2015-16, gan leihau cyfanswm gwerth y cronfeydd wrth gefn o £167 miliwn yn 2014-15 i £144 miliwn yn 2015-16.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon cyrff yr heddlu o 2011-12 i 2015-16

## Bydd angen i gyrff Llywodraeth Leol fynd i'r afael â nifer o heriau a newidiadau cyfrifyddu yn y blynyddoedd nesaf wrth baratoi eu datganiadau ariannol

### Ar gyfer 2016-17, bydd angen i awdurdodau weithredu nifer o newidiadau sylweddol i'w harferion cyfrifyddu

89 Mae cyrff llywodraeth leol yn paratoi eu datganiadau ariannol gan ddilyn y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol a gyhoeddir gan CIPFA/LASAAC (y Pwyllgor Cynghori ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol (yr Alban)). Mae Cod 2016-17 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r fformat a'r gofynion adrodd newydd yng nghyswllt y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) a'r Datganiad ar Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MiRS). Y prif newid i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r ffaith bod y gofyniad i'r dadansoddiad o wariant gwasanaethau adlewyrchu gofynion y Cod Ymarfer ar Adrodd ar Wasanaethau wedi'i ddileu. Bellach bydd awdurdodau'n dyrannu incwm a gwariant i wasanaethau ar sail eu dull o reoli neu weithredu gwasanaethau'n lleol.

90 Yn sgil adolygiad 'Telling the story' o ddatganiadau ariannol awdurdodau lleol, mae Cod 2016-17 yn cynnwys gofyniad i baratoi Dadansoddiad newydd o Wariant a Chyllid. Nod y dadansoddiad hwn yw dangos sut y mae'r awdurdod wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael (grantiau, rhenti, y dreth gyngor ac ardrethi busnes) i ddarparu gwasanaethau, o gymharu â'r adnoddau y mae'r awdurdod wedi'u defnyddio.

91 Rhaid gweithredu'r newidiadau hyn mewn dull ôl-weithredol. Hynny yw, yn natganiadau ariannol 2016-17, bydd angen i awdurdodau ailddatgan y cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16. O ganlyniad, bydd angen i awdurdodau sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gwblhau datganiadau ariannol 2016-17.

### Er bod CIPFA wedi gohirio'r trefniadau cyfrifyddu newydd yng nghyswllt yr Ased Rhwydwaith Priffyrdd, bydd angen i awdurdodau gynnal y momentwm wrth baratoi ar gyfer y newid sylweddol hwn

92 Ym mis Tachwedd 2016, penderfynodd Bwrdd Cod Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol (Bwrdd Cod) CIPFA/LASAAC ohirio'r broses arfaethedig o symud tuag at fesur ased rhwydwaith priffyrdd awdurdodau lleol ar sail y gost amnewid ar ôl dibrisiant. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2017, bydd y Bwrdd Cod yn ystyried a fydd y cyfraddau cost amnewid gros canolog a'r prosesau sicrwydd canolog yn cael eu cyflawni'n ddigon prydlon er mwyn gweithredu'n llwyddiannus yn 2017-18. Disgwylir y bydd y Bwrdd Cod yn cyflwyno'r gofynion prisio diwygiedig yng nghyswllt yr ased rhwydwaith priffyrdd yng Nghod 2017-18.

93 Fodd bynnag, bydd yn bwysig i awdurdodau gynnal eu momentwm wrth baratoi ar gyfer y newid sylweddol hwn. Ar hyn o bryd, gwybodaeth brin a geir mewn llawer o awdurdodau ynghylch ffyrdd diddosbarth, ac felly mae hwn yn faes lle y mae angen gwneud ymdrechion pellach. Byddai'n annerbyniol i awdurdodau lleol yng Nghymru beidio â bod yn barod ar gyfer proses o weithredu gofynion diwygiedig y Cod yn 2017-18.

## Bydd angen i gyrff llywodraeth leol ystyried tri newid allweddol i safonau cyfrifyddu yn y tymor canolig

94 Yn y cyfnod sy'n arwain at gyflwyno terfynau amser cynharach ar gyfer cau cyfrifon, bydd angen i gyrff sy'n cael eu harchwilio ystyried tri newid sylweddol i safonau cyfrifyddu. Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar feysydd lle y mae archwilwyr yn canfod gwallau'n aml yn natganiadau ariannol llywodraeth leol. O ganlyniad, bydd angen i gyrff ystyried yn gynnar sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y prosesau cyfrifyddu ac adrodd ariannol.

95 Mae Arddangosyn 13 yn dangos tri newid cyfrifyddu allweddol a'r dyddiad erbyn pryd y disgwylir iddynt gael eu cynnwys yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC.

96 Er bod cryn amser nes y bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu, bydd angen i gyrff llywodraeth leol gynllunio ar eu cyfer yn awr a'u cynnwys yn eu cynlluniau ynglŷn â chau cyfrifon yn gynnar.

## Mae effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r fenter adrodd integredig ar y broses o archwilio datganiadau ariannol yn cael ei hystyried ar hyn o bryd

97 I raddau cynyddol, mae cyrff llywodraeth leol yn ysgwyddo'r her o gynnal neu wella canlyniadau gan ddefnyddio'r un adnoddau neu lai o adnoddau. Bydd cyfathrebu ynghylch sut y byddant yn cyflawni hynny, a pha mor barod ydynt i'w gyflawni, yn hollbwysig er mwyn bod yn atebol i'r cyhoedd.

98 Yn y sector cyhoeddus, mae dwy fenter yn ceisio gwella dull cyrff cyhoeddus o gyflwyno adroddiadau:

- Mae prosiect **Simplifying and Streamlining Accounts** Trysorlys EM yn anelu at symleiddio'r dull o gyflwyno'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol statudol y mae endidau'r llywodraeth ganolog yn eu llunio, er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr yn well. Mae'r dull hwn yn ailstrwythuro adroddiad blynyddol yr hanner cyntaf a datganiadau ariannol yr ail hanner, sef y drefn draddodiadol, yn dri gofyniad adrodd mwy integredig sydd wedi'u seilio ar berfformiad, atebolrwydd a'r datganiadau ariannol.

- Drwy ei gyhoeddiadau **Telling the Story**, mae CIPFA hefyd wedi cymryd camau i symleiddio'r datganiadau ariannol a gwella'u hygyrchedd i ddefnyddwyr. Mae'r newidiadau a wnaed hyd yma yn ailgysylltu datganiadau ariannol awdurdodau lleol â'r ffordd y mae'r awdurdodau hynny'n cael eu trefnu a'u hariannu. Nod CIPFA yw cynorthwyo awdurdodau i fabwysiadu model adrodd integredig sy'n cyfleu'r ystod lawn o ffactorau sy'n effeithio ar eu gweithrediadau a'u gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Arddangosyn 13 – Newidiadau sydd ar y gweill o ran safonau cyfrifyddu

Mae'r newidiadau sydd ar y gweill o ran safonau cyfrifyddu, sy'n ymdrin ag offerynnau ariannol, refeniw o gontractau â chwsmeriaid, a phrydlesi, yn cyflwyno newidiadau allweddol i'r egwyddorion cyfrifyddu sydd i'w cymhwyso gan gyrff llywodraeth leol.

| Y safon gyfrifyddu | Y dyddiad dod i rym | Effaith |
|---|---|---|
| Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9 - Offerynnau ariannol | 2018-19 | Bydd IFRS 9, sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol, yn cymryd lle Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 39 ac mae'n cynnwys dull newydd, sy'n seiliedig ar egwyddorion, o ddosbarthu asedau ariannol a'u mesur. Mae hefyd yn cyflwyno methodoleg newydd ynghylch diffygiannau i asedau ariannol sydd wedi'i seilio ar golledion a ddisgwylir yn hytrach na cholledion sydd wedi'u creu. Bydd hyn yn golygu bod colledion credyd yn cael eu cydnabod yn gynharach. Mae bron pob un o'r gofynion cyfrifyddu sy'n ymwneud â rhwymedigaethau ariannol yn cael ei drosglwyddo o IAS 39 heb ei newid. |
| IFRS 15 - Refeniw o gontractau â chwsmeriaid | 2018-19 | Mae IFRS 15, sy'n ymwneud â refeniw o gontractau â chwsmeriaid, yn cyflwyno model pum cam sydd wedi'i seilio ar egwyddorion ar gyfer cydnabod refeniw sy'n deillio o gontractau â chwsmeriaid. Mae wedi'i seilio ar egwyddor greiddiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r drefn o gydnabod refeniw ddangos achos o nwyddau neu wasanaethau a addawyd yn cael eu trosglwyddo i'r cwsmer ar ffurf swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r corff yn disgwyl y bydd ganddo hawl iddi, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn gofyn am ddatgeliadau mwy helaeth nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd. |
| IFRS 16 - Prydlesi | 2019-20 | Bydd IFRS 16 yn cymryd lle'r safon bresennol ynghylch prydlesi, sef IAS 17. Y prif newid yw'r ffaith ei bod, i raddau helaeth, yn dileu'r gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredol a phrydlesi cyllidol ar gyfer prydleswyr. Mae'n gwneud hyn drwy gyflwyno un model cyfrifyddu ynglŷn â phrydleswyr, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydleswr gydnabod asedau a rhwymedigaethau yng nghyswllt pob prydles y mae ei chyfnod yn hwy na 12 mis, oni bai bod yr ased gwaelodol â gwerth isel. O ganlyniad, bydd pob prydles yn cael ei chydnabod ar y fantolen yn ased ar sail egwyddor 'hawl i ddefnyddio', gyda rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer rhentu yn y dyfodol. Mae hwn yn newid mawr i'r dull o gyfrifyddu yng nghyswllt prydlesi. |

Ffynhonnell yr arddangosyn: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

99 Mae’r ffocws cynyddol hwn ar wybodaeth gyfrifyddu haws ei defnyddio sy’n cyfuno perfformiad ariannol a pherfformiad mewn meysydd eraill yn golygu y bydd angen i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru ailystyried sut y maent yn cyflwyno’u cyfrifon a’r adroddiad naratif sy’n cyd-fynd â nhw. Mae’n debygol mai proses iterus fydd hon, ond bydd yn cyfrannu at ddealltwriaeth well o effaith penderfyniadau, gan ystyried yr ystod eang o ffactorau perthnasol ac nid ystyriaethau ariannol tymor byr yn unig. Bydd mabwysiadu model adrodd integredig yn cynorthwyo cyrff i ddangos eu bod wedi cydymffurfio â’u cyfrifoldebau i gyflawni’r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf).

100 Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol imi gyflwyno adroddiad i’r Cynulliad Cenedlaethol bob pum mlynedd ynglŷn â dull cyrff cyhoeddus o weithredu’r egwyddorion cynaliadwyedd. Yn 2016, ymgynghorais ynghylch fy newisiadau ar gyfer ail-lunio archwiliadau cyhoeddus yng Nghymru.

101 Yn 2017, byddaf yn cydweithredu â nifer fach o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys y sector llywodraeth leol, i ddatblygu dull archwilio sy’n drylwyr, ystyrlon a chymesur. Fel rhan o’r gwaith hwn, byddaf yn ystyried sut y mae’r Ddeddf yn effeithio ar ddatganiadau ariannol awdurdodau lleol.

# Atodiadau



# Atodiad 1 - Barn archwilio amodol a diamod

## Y mathau o farn archwilio

| Y math o farn | Disgrifiad |
|---|---|
| Barn ddiamod | Mae'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol, yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol a nodwyd. |
| Barn 'ac eithrio' amodol – cyfyngu ar gwmpas | Mae'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun gwir a theg, ac eithrio yng nghyswllt effaith mater nad oedd yr archwilydd yn gallu cael gafael ar dystiolaeth ddigonol yn ei gylch. Er enghraifft, mae'r archwilydd o'r farn bod y cofnodion cyfrifyddu ynghylch trafodiad neu falans perthnasol yn y datganiadau ariannol yn annigonol. |
| Barn 'ac eithrio' amodol - anghytuno | Mae'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun gwir a theg, ac eithrio yng nghyswllt effaith mater y cafwyd anghytuno perthnasol yn ei gylch rhwng yr archwilydd a'r corff a gafodd ei archwilio, a hynny ynglŷn â'r dull o ymdrin â'r mater yn y datganiadau ariannol. |
| Barn anffafriol | Bu anghytuno a oedd mor berthnasol, neu dreiddiol, fod y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn gamarweiniol neu'n anghyflawn. |
| Ymwrthod â barn | Nid oedd yr archwilydd yn gallu mynegi barn oherwydd ni allai gael gafael ar dystiolaeth, a hynny i raddau a allai olygu bod y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn gamarweiniol neu'n anghyflawn. |

## Pwysleisio mater, materion eraill, ac adroddiadau drwy eithriad

Gall yr adroddiad archwilio gynnwys hefyd baragraff 'pwysleisio mater' ar ôl y farn archwilio. Mae hwn yn tynnu sylw'r rhai sy'n defnyddio'r datganiadau ariannol at fater, neu faterion, a gyflwynir neu a ddatgelir yn y datganiadau ariannol, sydd mor bwysig eu bod yn agwedd sylfaenol ar ddealltwriaeth defnyddwyr o'r datganiadau ariannol. Nid yw hyn yn effeithio ar farn yr Archwilydd Cyffredinol ar y datganiadau ariannol.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol ychwanegu paragraff 'mater arall' os yw o'r farn fod angen rhoi gwybod am fater, ar wahân i'r rhai a gyflwynir neu a ddatgelir yn y datganiadau ariannol, sy'n berthnasol i ddealltwriaeth defnyddwyr o'r archwiliad, cyfrifoldebau'r archwilydd, neu'r adroddiad archwilio.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad:

- os nad yw'r datganiad llywodraethu blynyddol yn dangos y cydymffurfiwyd â chanllawiau;
- os nad oedd y wybodaeth a roddwyd yn y rhagair eglurhaol yn gyson â'r datganiadau ariannol; neu
- os arferodd yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw bwerau neu ddyletswyddau ychwanegol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

# Atodiad 2 - Beth a olygir wrth ‘perthnasol’?

Wrth gynllunio’r archwiliad a’i gynnal, bydd yr archwilwyr yn ceisio canfod camddatganiadau perthnasol a achosir naill ai gan dwyll neu wallau yn y datganiadau ariannol. Bydd gwybodaeth yn berthnasol pe gallai ei hepgor neu ei chamddatgan beri i’r sawl sy’n darllen y datganiadau ariannol lunio casgliad anghywir ynghylch y corff neu ei sefyllfa ariannol. Mae perthnasedd yn dibynnu ar faint yr eitem neu’r gwall, sy’n cael ei farnu yn amgylchiadau penodol y ffaith iddo gael ei hepgor neu ei gamddatgan. O ganlyniad, gellid ystyried bod swm gymharol fach yn berthnasol pe gallai gamarwain neu ddylanwadu ar rywun sy’n defnyddio’r datganiadau ariannol, e.e. gwall yng nghyflog datganedig uwch-swyddog.

Mater o farn broffesiynol yw penderfyniad yr archwilydd ynglŷn â pherthnasedd, a bydd sawl ffactor yn dylanwadu arno, gan gynnwys:

- y math o gorff sy’n cael ei archwilio;
- natur y gwasanaethau y mae’r corff yn eu darparu;
- gofynion deddfwriaethol; ac
- anghenion gwybodaeth ariannol deddfwyr a defnyddwyr eraill y datganiadau ariannol.

Amrywiodd y swm y gall camddatgan swm uwch nag ef gael ei ystyried yn berthnasol o £6,000 mewn cyrff llai a gafodd eu harchwilio, fel cyd-bwyllgor, i £24 miliwn mewn cronfeydd pensiwn mawr. Gall materion ansoddol penodol, fel gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol, hefyd effeithio ar y broses o benderfynu a yw eitem yn berthnasol neu beidio.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls
in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru